

## PRIFFYRDD, CYMRU

201- RHIF 16

### DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

#### GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (FURZELAND DRIVE, SGETI, ABERTAWE) 2015

*Gwnaed*

30 Ebrill 2015

*Yn dod i rym*

07 Mai 2015

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1).

#### Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Furzeland Drive, Sgeti, Abertawe) 2015.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Sir Dinas a Sir Abertawe;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi ar ei gyfer;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adnewwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn yr enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Furzeland Drive, Sgeti, Abertawe) 2015" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

#### Cau Priffordd

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar ddalen 1 o'r plan a adnewwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod angen cau'r briffordd er mwyn galluogi'r datblygiad i gael ei wneud yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan

## HIGHWAYS, WALES

201- NO. 16

### TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

#### THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (FURZELAND DRIVE, SKETTY, SWANSEA) ORDER 2015

*Made*

30 April 2015

*Coming into Force*

07 May 2015

The Welsh Ministers make this Order in exercise of their powers under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990(1).

#### Title, Interpretation and Commencement

1. (1) The title of this Order is The Stopping Up of Highways (Furzeland Drive, Sketty, Swansea) Order 2015.

(2) In this Order:-

"the Council" ("*y Cyngor*") means the County Council of the City and County of Swansea;

"the developer" ("*y datblygwr*") means the person carrying out the development for which the planning permission has been given;

"the deposited plan" ("*y plan a adnewwyd*") means the plan entitled "The Stopping Up of Highways (Furzeland Drive, Sketty, Swansea) Order 2015" which accompanies this Order; and

"the 1990 Act" ("*Deddf 1990*") means the Town and Country Planning Act 1990.

(3) This Order comes into force on the date on which notice that it has been made is published in accordance with section 252(10) of the 1990 Act.

#### Stopping Up

2. Subject to articles 3, 4, 5, 6 and 7 the Welsh Ministers authorise the stopping up of the areas of highway described in Schedule 1 shown by zebra hatching on the deposited plan sheet 1. The Welsh Ministers are satisfied that the stopping up is necessary to enable development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part III of the 1990 Act by the Council on 11 March

Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 11 Mawrth 2014 o dan y cyfeirnod 2013/1720, ac a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

### **Priffyrdd Newydd**

3. Crëir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y rhan newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â dotwaith ar ddalen 2 o'r plan a adnewydw.

### **Priffordd y Gwneir Gwelliannau Iddi**

4. Crëir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y rhan o briffordd y gwneir gwelliannau iddi a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â chroeslinellau ar ddalen 2 o'r plan a adnewydw, a bydd y briffordd hon, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980(2), yn briffordd i'w cynnal ar draul y pwrs cyhoeddus. Y Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd ar ei chyfer.

### **Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau Priffyrdd ac ar gyfer Darparu neu Wella'r Priffyrdd**

5. Ni chaniateir cau'r rhannau o briffordd yn Atodlen 1:-

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos sut y mae'r rhannau o'r briffordd i'w cau;

(b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu'r priffyrdd newydd a'r priffyrdd y gwneir gwelliannau iddynt fel y'u disgrifir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn er boddhad rhesymol y Cyngor;

(c) hyd nes y bydd y datblygiad yn Atodlen 4 wedi ei ddechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r priffyrdd i alluogi'r datblygiad i fynd rhagddo; a

(d) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod paragraffau (a), (b) ac (c) wedi eu bodloni.

### **Ymgwymerwyr Statudol a Darparwyr**

6. Pan fo gan ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr system gyfathrebu gyhoeddus unrhyw gyfarpar o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws yn union cyn cau'r rhannau o briffordd yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau mewn cysylltiad â'r cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

2014 under reference number 2013/1720 and described in Schedule 4 to this Order.

### **New Highways**

3. There shall be created, to the reasonable satisfaction of the Council, the new areas of highway described in Schedule 2 to this Order and shown by stipple marking on the deposited plan sheet 2.

### **Improved Highway**

4. There shall be created, to the reasonable satisfaction of the Council, the area of improved highway described in Schedule 3 to this Order and shown by cross hatching on the deposited plan sheet 2, which is a highway which, for the purposes of the Highways Act 1980(2) is a highway maintainable at the public expense and the Council is to be the highway authority for it.

### **Provisions Necessary or Expedient before Stopping Up and for the Provision or Improvement of the Highways**

5. The areas of highway in Schedule 1 must not be stopped up until:-

(a) the developer has provided, to the reasonable satisfaction of the Council, plans showing how the areas of highway are to be stopped up;

(b) the developer has provided the new and improved highways as described in Schedules 2 and 3 to this Order to the reasonable satisfaction of the Council;

(c) the development in Schedule 4 has commenced and the developer has informed the Council in writing of the necessity to close the highways to allow the development to proceed; and

(d) the Council has confirmed in writing to the developer that paragraphs (a), (b) and (c) are satisfied.

### **Statutory Undertakers and Providers**

6. Where immediately before the areas of highway are stopped up, there is under, in, on, over, along or across the highway any apparatus of statutory undertakers or public communications providers then (subject to section 261(4) of the 1990 Act) the undertakers or providers continue to have the same rights in respect of the apparatus as they had before the stopping up.

## Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

7. Os na fydd y datblygiad yn Atodlen 4 wedi ei ddechrau yn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os caiff y caniatâd ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

30 Ebrill 2015

### RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

- (1) 1990 p. 8. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.
- (2) 1980 p. 66.

## YR ATODLENNI

(Bras amcan yw pob mesuriad)

### ATODLEN 1

#### Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn

1. Rhan afreolaidd ei siâp o lwybr troed sy'n mesur cyfanswm o 116 o fetrau sgwâr, sydd i'r gogledd o'r briffordd o'r enw Furzeland Drive, Abertawe ac y rhoddwyd y cyfeirnod A iddi ar ddalen 1 o'r plan a adnewwyd.
2. Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben o'r enw Furzeland Drive, Abertawe sy'n mesur cyfanswm o 738 o fetrau sgwâr ac y rhoddwyd y cyfeirnod B iddi ar ddalen 1 o'r plan a adnewwyd.

### ATODLEN 2

#### Disgrifiad o'r rhannau o briffordd newydd sydd i'w darparu

1. Rhan afreolaidd ei siâp o ffordd fynediad newydd

## Duration of this Order

7. If the development in Schedule 4 has not begun within the relevant period specified in Part III of the 1990 Act as being the duration of the planning permission, or the permission is revoked before the end of that period, this Order ceases to have effect.

Signed under authority of the Minister for Economy, Science and Transport, one of the Welsh Ministers.

Dated

30 April 2015

### RICHARD MORGAN

Head of Asset Management and Standards  
Welsh Government

- (1) 1990 c. 8. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, the functions of the Secretary of State, so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales and are now exercisable by the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30(2) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.
- (2) 1980 c.66

## SCHEDULES

(All measurements are approximate)

### SCHEDULE 1

#### Description of the areas of highway to be stopped up under this Order

1. An irregular shaped area of footpath totalling 116 square metres situated north of the highway known as Furzeland Drive, Swansea and given the reference A on sheet 1 of the deposited plan.
2. An irregular shaped area of all purpose highway known as Furzeland Drive, Swansea totalling 738 square metres and given the reference B on sheet 1 of the deposited plan.

### SCHEDULE 2

#### Description of the areas of new highway to be provided

1. An irregular shaped area of new access road

sy'n mesur cyfanswm o 789.18 o fetrau sgwâr, sydd i'r dwyrain ac i'r gogledd o'r briffordd o'r enw Furzeland Drive, Abertawe ac y rhoddwyd y cyfeirnod C iddi ar ddalen 2 o'r plan a adnewwyd.

2. Rhan betryalog ei siâp o briffordd newydd sy'n mesur cyfanswm o 11.96 o fetrau sgwâr, sydd i'r gogledd o'r briffordd o'r enw Furzeland Drive, Abertawe ac y rhoddwyd y cyfeirnod D iddi ar ddalen 2 o'r plan a adnewwyd.

3. Rhan betryalog ei siâp o briffordd newydd sy'n mesur cyfanswm o 75.33 o fetrau sgwâr, sydd i'r gogledd o'r briffordd o'r enw Furzeland Drive, Abertawe ac y rhoddwyd y cyfeirnod E iddi ar ddalen 2 o'r plan a adnewwyd.

4. Rhan sgwâr ei siâp o briffordd newydd sy'n mesur cyfanswm o 25.35 o fetrau sgwâr, sydd i'r gogledd o'r briffordd o'r enw Furzeland Drive, Abertawe ac y rhoddwyd y cyfeirnod F iddi ar ddalen 2 o'r plan a adnewwyd.

### **ATODLEN 3**

#### **Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn**

1. Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd o'r enw Furzeland Drive, Abertawe sy'n mesur cyfanswm o 28 o fetrau sgwâr, sydd i'r dwyrain o'r briffordd o'r enw Maes y Gollen, Abertawe ac y rhoddwyd y cyfeirnod G iddi ar ddalen 2 o'r plan a adnewwyd.

### **ATODLEN 4**

#### **Y Datblygiad**

Dymchwel yr adeiladau presennol ac adeiladu 43 o fflatiau a gwneud gwaith cysylltiedig o ran tirweddu, creu mannau parcio a seilwaith.

### **DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

#### **GORCHYMYN CAU PRIFYRDD (FURZELAND DRIVE, SGETI, ABERTAWE) 2015**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf") i awdurdodi cau'r rhannau o

totalling 789.18 square metres situated east and north of the highway known as Furzeland Drive, Swansea and given the reference C on sheet 2 of the deposited plan.

2. A rectangular shaped area of new highway totalling 11.96 square metres situated north of the highway known as Furzeland Drive, Swansea and given the reference D on sheet 2 of the deposited plan.

3. A rectangular shaped area of new highway totalling 75.33 square metres situated north of the highway known as Furzeland Drive, Swansea and given the reference E on sheet 2 of the deposited plan.

4. A square shaped area of new highway totalling 25.35 square metres situated north of the highway known as Furzeland Drive, Swansea and given the reference F on sheet 2 of the deposited plan.

### **SCHEDULE 3**

#### **Description of the area of highway to be improved under this Order**

1. An irregular shaped area of highway known as Furzeland Drive, Swansea totalling 28 square metres situated east of the highway known as Maes y Gollen, Swansea and given the reference G on sheet 2 of the deposited plan.

### **SCHEDULE 4**

#### **The Development**

Demolition of existing buildings and construction of 43 apartments and associated landscaping, car parking and infrastructure works.

### **TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

#### **THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (FURZELAND DRIVE, SKETTY, SWANSEA) ORDER 2015**

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the Act") to authorise the stopping up of the

briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn, i ddarparu ar gyfer y rhannau newydd o briffordd fel y'u disgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn ac i wella'r rhan o briffordd fel y'i disgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i gael ei wneud. Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Furzeland Drive, Sgeti, Abertawe) 2015 ("y Gorchymyn") yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adnewwyd yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Dinas a Sir Abertawe, Parc Penllergaer, Penllergaer, Abertawe SA4 9GJ neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1194345.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu

b. na chydymffurfwyd ag un o ofynion gweithdrefnol y Ddeddf;

o fewn 6 wythnos i 07 Mai 2015, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru) (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Deddfwriaeth ddrafft/Offerynnau Anstatudol Drafft/Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchymynion Cau/2015).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLENNI**

**ATODLEN 1**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

areas of highway described in Schedule 1 to this Notice, to provide for the new areas of highway as described in Schedule 2 to this Notice and to improve the area of highway as described in Schedule 3 to this Notice to enable the development described in Schedule 4 to be carried out. The Stopping Up of Highways (Furzeland Drive, Sketty, Swansea) Order 2015 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge during normal office hours at the offices of the City and County of Swansea Council, Parc Penllergaer, Penllergaer, Swansea SA4 9GJ or may be obtained free of charge from the address below quoting reference qA1194345.

If a person is aggrieved by the Order, on the ground that:

a. it is not within the powers of the Town and Country Planning Act 1990; or

b. a procedural requirement of the Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 07 May 2015 make an application for the purpose to the High Court.

A copy of the Order and Notice can be viewed at [www.gov.wales](http://www.gov.wales) (Select: Legislation/ Subordinate legislation/ Non-Statutory Instruments/ Transport / TCPA Stopping Up Orders/ 2015).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government

**SCHEDULES**

**SCHEDULE 1**

**(All measurements are approximate)**

**Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn**

1. Rhan afreolaidd ei siâp o lwybr troed sy'n mesur cyfanswm o 116 o fetrau sgwâr, sydd i'r gogledd o'r briffordd o'r enw Furzeland Drive, Abertawe ac y rhoddwyd y cyfeirnod A iddi ar ddalen 1 o'r plan a adnewwyd.
2. Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd at bob diben o'r enw Furzeland Drive, Abertawe sy'n mesur cyfanswm o 738 o fetrau sgwâr ac y rhoddwyd y cyfeirnod B iddi ar ddalen 1 o'r plan a adnewwyd.

**ATODLEN 2**

**Disgrifiad o'r rhannau o briffordd newydd sydd i'w darparu**

1. Rhan afreolaidd ei siâp o ffordd fynediad newydd sy'n mesur cyfanswm o 789.18 o fetrau sgwâr, sydd i'r dwyrain ac i'r gogledd o'r briffordd o'r enw Furzeland Drive, Abertawe ac y rhoddwyd y cyfeirnod C iddi ar ddalen 2 o'r plan a adnewwyd.
2. Rhan betryalog ei siâp o briffordd newydd sy'n mesur cyfanswm o 11.96 o fetrau sgwâr, sydd i'r gogledd o'r briffordd o'r enw Furzeland Drive, Abertawe ac y rhoddwyd y cyfeirnod D iddi ar ddalen 2 o'r plan a adnewwyd.
3. Rhan betryalog ei siâp o briffordd newydd sy'n mesur cyfanswm o 75.33 o fetrau sgwâr, sydd i'r gogledd o'r briffordd o'r enw Furzeland Drive, Abertawe ac y rhoddwyd y cyfeirnod E iddi ar ddalen 2 o'r plan a adnewwyd.
4. Rhan sgwâr ei siâp o briffordd newydd sy'n mesur cyfanswm o 25.35 o fetrau sgwâr, sydd i'r gogledd o'r briffordd o'r enw Furzeland Drive, Abertawe ac y rhoddwyd y cyfeirnod F iddi ar ddalen 2 o'r plan a adnewwyd.

**ATODLEN 3**

**Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn**

1. Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd o'r enw Furzeland Drive, Abertawe sy'n mesur cyfanswm o 28 o fetrau sgwâr, sydd i'r dwyrain o'r briffordd o'r enw Maes y Gollen, Abertawe ac y rhoddwyd y cyfeirnod G iddi ar ddalen 2 o'r plan a adnewwyd.

**ATODLEN 4**

**Description of the areas of highway to be stopped up under this Order**

1. An irregular shaped area of footpath totalling 116 square metres situated north of the highway known as Furzeland Drive, Swansea and given the reference A on sheet 1 of the deposited plan.
2. An irregular shaped area of all purpose highway known as Furzeland Drive, Swansea totalling 738 square metres and given the reference B on sheet 1 of the deposited plan.

**SCHEDULE 2**

**Description of the areas of new highway to be provided**

1. An irregular shaped area of new access road totalling 789.18 square metres situated east and north of the highway known as Furzeland Drive, Swansea and given the reference C on sheet 2 of the deposited plan.
2. A rectangular shaped area of new highway totalling 11.96 square metres situated north of the highway known as Furzeland Drive, Swansea and given the reference D on sheet 2 of the deposited plan.
3. A rectangular shaped area of new highway totalling 75.33 square metres situated north of the highway known as Furzeland Drive, Swansea and given the reference E on sheet 2 of the deposited plan.
4. A square shaped area of new highway totalling 25.35 square metres situated north of the highway known as Furzeland Drive, Swansea and given the reference F on sheet 2 of the deposited plan.

**SCHEDULE 3**

**Description of the area of highway to be improved under this Order**

1. An irregular shaped area of highway known as Furzeland Drive, Swansea totalling 28 square metres situated east of the highway known as Maes-y-Gollen, Swansea and given the reference G on sheet 2 of the deposited plan.

**SCHEDULE 4**

### **Y Datblygiad**

Dymchwel yr adeiladau presennol ac adeiladu 43 o fflatiau a gwneud gwaith cysylltiedig o ran tirweddu, creu manau parcio a seilwaith yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Gyngor Sir Dinas a Sir Abertawe ar 11 Mawrth 2014 o dan y cyfeirnod 2013/1720.

### **The Development**

Demolition of existing buildings and construction of 43 apartments and associated landscaping, car parking and infrastructure works in accordance with the planning permission granted under Part III of the Town and Country Planning Act 1990 by the County Council of the City and County of Swansea on 11 March 2014 under reference number 2013/1720.